I MEWN I'R DREFN NEWYDD DAN ARWEINIAD CRIST

Nodyn i'r siaradwr:
Helpwch bawb i weld mai Iesu yw Pen deinamig y gynulleidfa. Eglurwch *sut* mae'n ein harwain. Mewn termau ymarferol, disgrifiwch yr hyn y mae'n rhaid i henuriaid ac eraill ei wneud i brofi eu bod nhw'n cydnabod Iesu'n Arweinydd. Anogwch bawb i ganlyn Iesu yn llwyr hyderus y bydd yn eu tywys yn ddiogel i mewn i'r byd newydd

CRIST YW'N HARWEINYDD (8 mun.)

Mewn cyfnod o argyfwng arweiniad byd eang, mae gennym Arweinydd perffaith, Crist

Gwrthodir llawer o arweinyddion cenedlaethol, gan fod pobl yn anfodlon ag arweiniad aneffeithiol neu lwgr

Un rheswm am fod cenhedloedd yn wynebu un argyfwng neu drychineb ar ôl y llall yw fod pobl wedi colli'r hyder i gefnogi'u harweinwyr

Ni chrewyd dynion i reoli dros ddynion eraill na'u harwain (Jer 10:23; *ce* 189-93)

'Does ganddynt mo'r gallu na'r hawl i wneud hynny (*yp* 305)

Fel Cristionogion, nid bod dynol yw'n Harweinydd ni ond Crist (Mth 23:10)

Proffwydwyd y byddai'n Arweinydd nodedig (Dan 9:25)

Mae'r rhai sy'n newynu ac yn sychedu mewn ystyr ysbrydol yn disgwyl wrtho ef (Eseia 55:1, 2, 4; *sl* 95-107)

Ef yw'n Harweinydd NI

Ein sefyllfa ni yn debyg i sefyllfa'r Israeliaid ar rosydd Moab

'Roedd Josua ganddynt yn arweinydd ffyddlon, medrus wedi'i benodi gan Jehofah (Deut 31:7, 8, 23)

Yn ddiofn fe'u harweiniodd i Wlad yr Addewid

Bendithiwyd y rhai a'i canlynodd am hyn (Jos 23:14; 24:31)

Os derbyniwn ni arweiniad Crist yn llwyr, cawn ein harwain i'r byd newydd

MAE ARWEINIAD CRIST YN REAL (10 mun.)

Pan oedd ar y ddaear, dangosodd Iesu ei gymwysterau fel arweinydd (*it*-2 70)

Darparodd hyfforddiant defnyddiol i'w ganlynwyr (Mc 6:7-13; Lc 8:1)

Rhoddodd gyfrifoldebau a thasgau yn ogystal â'r weinidogaeth i'w ddisgyblion (Mth 14:19; Mc 3:9; In 4:2)

Rheolodd dyrfaoedd o filoedd (Mc 6:39-46)

Darparodd arweiniad drwy esiampl bersonol, yn ymegnïo wrth bregethu, dangos gostyngeiddrwydd yn ei ymwneud ag eraill (Mc 6:31-34; In 13:3-15)

Heddiw, mae Iesu yn dal i ddarparu arweiniad i'r gynulleidfa (*w*87 8/1 15-20)

Rhagfynegwyd y byddai'n arweinydd gweithredol yn ystod ein cyfnod ni (Mth 18:20; 28:20)

Mae'n arolygu'r "gwas ffyddlon a chall" (Mth 24:45-47)

Mae'n cyfarwyddo gwaith yr henuriaid penodedig ym mhob cynulleidfa (Dat 1:12-20; *re* 28-9)

Mae'n parhau i ddefnyddio'r angylion

Yn wir, Iesu yw "pen y corff," sef y gynulleidfa (Col 1:18; Eff 4:15)

'YDYCH CHI'N DANGOS FOD ARWEINIAD CRIST YN REAL I CHI? (12 mun.)

Mae hwn yn gwestiwn addas gan fod llawer yn clywed am Grist ond nad ydynt yn iawn dderbyn ei arweiniad na gwneud newidiadau angenrheidiol yn eu bywydau

'Ydych chi wedi bod yn astudio'r Beibl ers peth amser 'nawr ond yn parhau i ohirio gweithredu'n benderfynol?

Efallai fod eich rhieni yn y gwirionedd, ond a ydych chi'n bersonol wedi penderfynu canlyn arweiniad Crist?

Gall y rheiny sydd wedi'u bedyddio ofyn: ''Ydw i'n amlygu yn fy mywyd bob dydd a'm penderfyniadau fy mod yn derbyn arweiniad Crist? 'Ydw i'n gwir symud i gyfeiriad y byd newydd dan ei arweiniad?'

Amlygwch yn eich agwedd a'ch gweithredoedd eich bod yn derbyn ei arweiniad

Byddwch yn barod i gydnabod penteuluaeth, heb deimlo y gwyddoch yn well neu eich bod wedi'ch eithrio (Lc 2:51; Col 3:18, 20)

Byddwch fyw i wneud ewyllys Duw, fel y gwnaeth Iesu; ystyriwch amserau gorffwys hyd yn oed yn achlysuron i'ch adnewyddu fel y medrwch barhau (*w*79 6/1 16-17; *w*74 374)

Byddwch yn fodlon cydweithredu â threfniadau'r gynulleidfa, gan gydnabod fod Crist yn arwain y gynulleidfa â'r ysbryd sanctaidd (Eff 4:11, 12; 5:23)

Meithrinwch hyder yn yr henuriaid, trowch atynt am gymorth; maen' nhw'n gwasanaethu gyda Christ i ddarparu amddiffyn (Eseia 32:1, 2; *w*89 9/15 10, 17; *tp* 184)

Cofiwch: Dylai'r ffordd y meddyliwn ac y gweithredwn ddangos ein bod ni'n cydnabod Crist yn Arweinydd, Esiampl

MAE ANGEN I HENURIAID DDILYN ARWEINIAD CRIST (10 mun.)

Anogir Cristionogion i barchu henuriaid sy'n arwain yn ysbrydol, a olyga efelychu eu ffydd (Heb 13:7)

Maent i'w hefelychu, nid am eu bod yn arweinwyr, ond am eu bod yn efelychu'r gwir Arweinydd, Crist (Mth 23:10; 1Cor 11:1)

Dylai henuriaid gydnabod hyn yn wylaidd

Mae derbyn arweiniad Crist yn golygu fod yn rhaid i henuriaid fod yn fodlon gweini ar eraill neu eu gwasanaethu (Mth 20:25-27; In 13:15)

Henuriaid, 'ydych chi'n derbyn ffordd Crist fel y ffordd orau o ymddŵyn â brodyr yn y gynulleidfa?

Nid rhoi gorchmynion yn unig wnaeth Crist ond gosod esiampl; 'roedd yn addfwyn (Mth 11:28-30; 1Pedr 5:2, 3)

Osgowch unrhyw duedd i hybu syniadau personol neu arddangos huodledd sy'n eich dyrchafu eich hun (1Cor 2:1-5; 2Tim 4:2)

Os yn ansicr ynglŷn â sut i drin mater yn ymwneud â'r gynulleidfa, 'fyddwch chi'n ceisio canfod "meddwl Crist"? (1Cor 2:16; *w*86 12/1 10-15; *w*77 566-8; *w*76 532-3)

Bydd eich ymdrechion i gydnabod a chanlyn arweiniad Crist o fudd i chi a'r holl braidd

PARHEWCH I GANLYN ARWEINIAD CRIST (5 mun.)

Parhewch i symud ymlaen tuag at y byd newydd ac i mewn iddo dan arweiniad Crist

Nid aeth yr Israeliaid i mewn i Wlad yr Addewid yn annibynnol, pob un yn mynd ei ffordd ei hunan

Aethant i mewn dan gyfarwyddyd ac arweiniad Josua (Jos, pennod 3)

Wrth i'r byd newydd agosáu, bydd goroesi'n parhau i olygu canlyn arweiniad Crist

O'n blaen mae profion mawr ar ein ffydd

Rhaid ymwrthod ag unrhyw awydd mympwyol i ddilyn cwrs hwylus neu hunanol

'Wnawn ni gadw esiampl Crist yn flaenaf yn ein meddyliau? (Lc 22:42)

Mae canlyn arweiniad Crist yn cynnwys hyd yn oed bod yn barod i farw er mwyn ein brodyr—'ydyn ni? (In 13:34, 35; 15:12, 13)

O wneud yr hyn a ofynnir gennym wrth inni ganlyn ei arweiniad, gallwn fod yn hyderus yr enillwn fendithion addawedig y byd newydd (Jos 21:45; 23:14)

Mae ei arweiniad yn sicr o lwyddo, fel y gwna pob un ohonom ninnau os canlynwn ef yn agos i mewn i'r byd newydd

(Glynwch yn glòs wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim angen darllen pob testun a grybwyllir. 'Does dim rhaid crybwyll y deunydd ffynhonnell mewn cromfachau)

© 1993 Watch Tower Bible and Tract Society of Pennsylvania